Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 10 Mawrth 2014**

Amser:
**14.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:
**Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk


## Agenda

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalennau 1 - 2)

**CLA(4)-08-14 – Papur 1** – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**CLA363 - Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 18 Chwefror 2014; Fe'u gosodwyd ar: 20 Chwefror 2014; Yn dod i rym ar: 21 Chwefror 2014

**CLA364 - Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 20 Chwefror 2014; Fe'u gosodwyd ar: 21 Chwefror 2014; Yn dod i rym ar: 14 Mawrth 2014

**CLA365 - Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 19 Chwefror 2014; Fe'i gosodwyd ar: 21 Chwefror 2014; Yn dod i rym ar: 14 Mawrth 2014

**CLA366 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 20 Chwefror 2014; Fe'u gosodwyd ar: 24 Chwefror 2014; Yn dod i rym ar: 17 Mawrth 2014

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(vi) lle mae’r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae’n bwriadu ei gyhoeddi; neu’n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

**Adroddiad Terfynol y Bil Tai (Cymru)** (Tudalennau 3 - 36)
**CLA(4)-08-14 - Papur 2** - Adroddiad Terfynol

**Ymchwiliad i ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad** (Tudalennau 37 - 47)
**CLA(4)-08-14 - Papur 3** - Llythyr Ymgynghori Drafft

**Blaenraglen waith** (Tudalennau 48 - 50)

**CLA(4)-08-14 - Papur 4** - Blaenraglen waith

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Offerynnau Statudol Gydag Adroddiadau Clir

## 10 Mawrth 2014

**CLA363 - Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/3280 (Cy. 284)) sydd yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1122/2009 mewn perthynas â thrawsgydymffurfio o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r Rheoliadau presennol yn ymwneud yn bennaf â gwarchod ansawdd dŵr daear.

**CLA364 – Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfrannu at weithredu, o ran Cymru, Erthygl 30 o Gyfarwyddeb 2012/18/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli peryglon damweiniau mawr sy'n ymwneud â sylweddau peryglus (OJ Rhif L 197, 24.7.2012, tt.1–37 ("Cyfarwyddeb Seveso III").

**CLA365 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008") drwy estyn y ddarpariaeth ar gyfer cynnydd yn lefel y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach hyd 31 Mawrth 2015. Dim ond i gategorïau penodol o drethdalwr, y mae Gorchymyn 2008 yn eu cwmpasu, y mae'r estyniad o'r rhyddhad yn gymwys.

**CLA366 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989 ("Rheoliadau 1989") yn gwneud darpariaeth ar gyfer casglu a gorfodi ardrethi annomestig. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1989.

Mae rheoliad 2(2) yn galluogi awdurdod bilio (oni bai y gofynnir am gopi caled) i ddarparu'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddi gael ei darparu gyda hysbysiad galw am dalu ardrethi annomestig, drwy gyhoeddi'r wybodaeth honno ar wefan.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon